WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr S Phillips,
Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,
Y Ganolfan Ddinesig,
Port Talbot SA13 1PJ

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 639A2012 |
| **Dyddiad** | 21 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o 5 |

Annwyl Steven

## Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r casgliadau allweddol sy'n codi o waith yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur, ac a yw'r Cyngor yn cyd-fynd yn well â'r arferion a awgrymwyd.

Yn dilyn fy llythyr Asesiad Gwella ar 12 Medi 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant;
- fy sylwadau, a sylwadau rheoleiddwyr perthnasol, ar i ba raddau y gellir dibynnu ar hunanwerthusiad y Cyngor; a
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion.

Byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn trwy:

- adolygu Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2011-12 'Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig' (yr Adroddiad);
- archwilio sampl o Ddangosyddion Perfformiad y Cyngor; a
- chysylltu'n rheolaidd â'r Tîm Rheoli Newid ac Arloesi ac adolygu trefniadau rheoli perfformiad mewn sampl o feysydd gwasanaeth.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Cyhoeddodd ei Adroddiad Blynyddol erbyn y dyddiad terfyn, sef 31 Hydref 2012, a darparodd asesiad o berfformiad yn erbyn pob un o'i themâu gwella.

## Mae yna botensial i'r Cyngor gydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw priodol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir ynglŷn â sut i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae yna botensial i'r Cyngor ddatblygu ei drefniadau adrodd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Adrodd ar berfformiad yn y gorffennol a defnyddio gwybodaeth am berfformiad:
  - Mae'r Cyngor wedi cynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a rhywfaint o ddata o Ddangosyddion Perfformiad lleol, ynghyd â rhywfaint o ddata o arolygon meintiol ac arolygon boddhad defnyddwyr gwasanaethau. Gellid ehangu'r ystod hon o dystiolaeth (gan dynnu ar adolygiadau systemau) i gyflwyno darlun llawnach o ansawdd gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr.
  - Nid yw'r asesiad o berfformiad yn rhoi esboniad digonol o sut mae'r Cyngor wedi gwerthuso ei berfformiad, er enghraifft, trwy adolygiadau gan gymheiriaid, asesiadau craffu neu feincnodi.
  - Er bod y Cyngor wedi esbonio ehangder y gweithgarwch cydweithio yn ystod y flwyddyn adrodd, gellid gwella hyn trwy gynnwys manylion sy'n nodi a yw cydweithredu o'r fath wedi cyflawni'r canlyniadau dymunol a chefnogi cyflawniad amcanion gwella.
- Cyhoeddi ac ymgysylltu â'r cyhoedd:
  - Mae'r Adroddiad ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, a gallai'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael yn uniongyrchol i grwpiau buddiant a phartneriaid penodol (megis Cartrefi NPT, sefydliadau cymunedol)

## Er bod yr Adroddiad yn darparu darlun rhesymol gytbwys o berfformiad, mae yna botensial i sicrhau bod y canlyniadau'n gliriach ac yn fwy hygyrch i grwpiau buddiant penodol

### Gellid ehangu ystod y dystiolaeth a ddefnyddir i wella perfformiad i gyflwyno darlun llawnach o ansawdd gwasanaethau a phrofiadau defnyddwyr

Mae adroddiad y Cyngor yn dibynnu'n bennaf ar ddangosyddion perfformiad fel ei fesurau llwyddiant allweddol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n awgrymu y dylid defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth am berfformiad , megis canfyddiadau aelodau etholedig, partneriaid, cymheiriaid, archwiliadau mewnol, adolygiadau craffu a staff. Er enghraifft, mae 'thema 5' y Cyngor yn ymwneud â gwella gwasanaethau'r Cyngor gyda'r nod o wneud gwasanaethau'n haws i bobl eu defnyddio, yn fwy effeithlon ac o safon uwch. O ystyried y ffaith mai un bwriad yw y bydd pobl yn ei chael hi'n haws defnyddio'r gwasanaethau, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am brofiadau defnyddwyr gwasanaethau. Rydym yn ymwybodol bod adolygiadau systemau gwasanaeth yn gofyn am farn defnyddwyr, felly gallai hyn fod yn gymharol hawdd ei ddatrys trwy sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir yn ystod adolygiadau'n cael ei chynnwys yn asesiad blynyddol y Cyngor.

Mewn ymateb i'n sylwadau y llynedd, mae'r Cyngor wedi cyfeirio at welliannau i wasanaethau a dirywiad mewn perfformiad yn y rhan fwyaf o'r meysydd gwasanaeth. Mae'r asesiad cyffredinol ar ddechrau'r ddogfen hon yn rhoi sylw i ystod eang o wasanaethau ac yn darparu esboniad clir o farn y Cyngor ar y meysydd y mae wedi llwyddo ynddynt a'r meysydd sy'n dal i fod yn her.

Mae'r gwaith o fabwysiadu methodoleg adolygu systemau ledled y Cyngor wedi arwain at wasanaethau'n methu â gosod targedau penodol ar gyfer gwella, er bod gwybodaeth sydd ar gael trwy adolygiadau systemau'n galluogi'r Cyngor i ddangos 'y cyfeiriad cyffredinol'. Mae yna botensial i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i ddarparu esboniad cliriach o welliannau ar lefel gwasanaeth yn yr Adroddiad. Mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod ei Adroddiad yn gryno ond, yn achos grantiau cyfleusterau i'r anabl, mae hyn wedi golygu bod rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am y gwelliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ystod 2011-12 wedi'i hepgor. Mae Atodiad 2 yr adroddiad yn darparu cymhariaeth ddefnyddiol â'r holl ddangosyddion perfformiad sydd ar gael mewn perthynas â pherfformiad dros y tair blynedd flaenorol, a chyfartaledd Cymru.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn darparu asesiad cyffredinol blynyddol o wasanaethau cymdeithasol, ac yn cyfeirio at werthusiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Roedd AGGCC o'r farn bod adroddiad y cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr a chywir o berfformiad y Cyngor

ym maes gwasanaethau oedolion ac yn amlygu rhai meysydd o berfformiad gwael ym maes gwasanaethau plant.

### Nid yw effaith craffu ar wasanaethau a chydweithio wedi'i hesbonio'n eglur bob amser

Mae'r Adroddiad yn cyfeirio at 2011-12 fel blwyddyn o gynnydd yn y gweithgaredd craffu; nid yw'n egluro effaith yr adolygiadau craffu. Cyfeirir at adolygiadau o gydraddoldebau, gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel, yn ogystal â threfniadau rheoli perfformiad y Cyngor, ond ni chynigir unrhyw eglurhad o'r manteision a gyflawnwyd a chysylltiad ag Amcanion Gwella.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i ddatblygu ei drefniadau adrodd ar berfformiad fel ei fod mewn sefyllfa well i nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd ac mae'n gweithio tuag at hyn. Defnyddir gwybodaeth rheoli perfformiad i lywio a thargedu adnoddau fel yn y Gwasanaethau Plant a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac i lywio gwaith craffu a'r cabinet bob chwarter.

Mae'r Cyngor yn asesu ei drefniadau partneriaeth fel rhai cadarn, ond nid yw'n rhoi digon o dystiolaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd i gefnogi'r asesiad hwn. Mae Adran 5 yr adroddiad yn crynhoi mentrau cydweithredol allweddol ar gyfer y Cyngor a'r rhanbarth, ond nid yw'n egluro i ba raddau y cyflawnwyd canlyniadau a fwriadwyd ac a fyddant yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau'r Cyngor.

### Mae'r Cyngor wedi ceisio gwneud ei gyhoeddiad yn hygyrch i ddinasyddion a rhanddeiliaid, ond mae potensial i sicrhau bod modd dod o hyd iddo'n haws ar y wefan a'i hyrwyddo i grwpiau buddiant penodol

Mae'r Cyngor yn dibynnu ar y rhyngrwyd fel y prif gyfrwng ar gyfer gweld yr adroddiad, ac mae wedi cynhyrchu posteri i dynnu sylw at ei fodolaeth a chyfeirio at ei leoliad ar wefan y Cyngor. Tynnwyd sylw at ei fodolaeth ar dudalen gartref gwefan y Cyngor am un wythnos wedi iddo gael ei gyhoeddi ac mae'n parhau ar y dudalen 'nodweddion', (ar 18 Rhagfyr 2012), sy'n darparu dolen i'r Adroddiad Blynyddol.

Rhoddwyd rhai camau ar waith i wneud yr adroddiad yn hygyrch, er enghraifft; mae fersiynau o'r ddogfen ar gael mewn braille, print bras, ac ieithoedd eraill o ofyn amdanynt. Hefyd, gallai'r Cyngor wneud defnydd o grwpiau buddiant eraill y mae'n ymgysylltu â nhw a dulliau eraill o gyfathrebu y mae'n eu defnyddio fel modd o hyrwyddo'r Adroddiad, er enghraifft drwy sicrhau bod copïau'n mynd i:

- gynghorau tref/cymuned;
- sefydliadau partner megis Cartrefi NPT, Grŵp Gwalia, Hamdden Cymunedol Celtic ac ati; a
- grwpiau cymunedol/y sector gwirfoddol

O dan ei 'thema 5' mae'r Cyngor yn disgrifio amryw o ffyrdd y gall pobl ddod o hyd i wasanaethau'r Cyngor, er enghraifft drwy gynyddu'r defnydd o gyfryngau cymdeithasu fel twitter a facebook. Gellid archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r rhain fel dull ychwanegol o hyrwyddo'r adroddiad.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i ddatblygu ei drefniadau adrodd ar berfformiad er mwyn iddo fod mewn sefyllfa well i nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn. Am y rheswm hwn, ni cheir cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn, ond byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Yn gywir

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Steve Barry – Rheolwr
Samantha Spruce – Arweinydd Archwilio Perfformiad